O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 201- Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) (Llan-wern, Casnewydd) (Terfynau Cyflymder Amrywiol a Chlirffordd) 201-

*Gwnaed* *201-*

*Yn dod i rym* *201-*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y ffordd fynediad"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 84(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar ******* 201-. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) (Llan-wern, Casnewydd) (Terfynau Cyflymder Amrywiol a Chlirffordd) 201-.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbytffordd" ("*carriageway*") yw'r darn hwnnw o'r ffordd fynediad y bwriedir i gerbydau traffig dramwyo arni ond nad yw'n cynnwys cilfan;

ystyr "cilfan" ("*lay-by*") yw unrhyw ran o'r ffordd fynediad a fwriedir fel man aros i gerbydau ar un o ymylon y ffordd fynediad a ffin gyfan neu rannol iddi o farciau ffordd o'r math a welir yn niagram 1010 o Atodlen 6 i Reoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2002**(2)**;

ystyr "ffordd fynediad" ("*access road*") yw

Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen’s Way) fel y’i pennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn, ac

ystyr “llain ymyl” (“*verge*”) yw unrhyw ran o’r ffordd fynediad nad yw’n gerbytffordd nac yn gilfan.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn hwnnw o’r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o’r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau hynny o’r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 3.

**6.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7, ni chaiff neb, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar y darn hwnnw o’r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 4 i’r Gorchymyn hwn.

**Esemptiadau**

**7.** Ni fydd dim yn erthygl 6 yn gymwys:

a. i atal cerbyd rhag aros ar unrhyw gerbytffordd am gymaint o amser ag sy’n angenrheidiol i alluogi’r cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â’r canlynol:

i. unrhyw waith adeiladu neu ddymchwel;

ii. symud unrhyw rwystr i draffig;

iii. cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu’r ffordd fynediad neu osod, codi, cynnal a chadw, newid neu drwsio ar y ffordd fynediad neu wrth ei hymyl unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y’i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003**(3)**.

b. i gerbyd a ddefnyddir at ddibenion yr heddlu,

y frigâd dân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

c. i gerbyd a ddefnyddir yng ngwasanaeth awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol, a

ch. i gerbyd sy'n stopio:

i. pan fydd yn ofynnol i'r person sy'n ei reoli stopio yn ôl y gyfraith;

ii. pan fydd rhaid i'r person hwnnw stopio er mwyn osgoi damwain, neu

iii. pan fydd y person hwnnw yn cael ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau y tu allan i'w reolaeth.

**8.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar unrhyw lain ymyl sy'n union gyfagos i unrhyw ran o'r gerbytffordd a gynhwysir yn y darnau o'r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 4 at ddiben gwerthu nwyddau o'r cerbyd hwnnw.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 201-

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** O.S. 2002/3113.
**(3)** O.S. 2003 p.21.

## YR ATODLENNI

## Darnau o Ffordd Fynediad y Gwaith Dur (Queen's Way), Llan-wern, Casnewydd

## ATODLEN 1

### Terfyn Cyflymder 30 MYA

Y darn hwnnw o'r ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 28 o fetrau i'r dwyrain o berimedr Cylchfan Longditch hyd at bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau.

## ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 40 MYA

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau hyd at bwynt 41 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Newport Galvanisers a reolir gan signalau.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 173 o fetrau i'r dwyrain o ganol ffordd fynediad ymyl Air Products hyd at bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau.

## ATODLEN 3

### Terfyn Cyflymder 50 MYA

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 41 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Newport Galvanisers a reolir gan signalau hyd at bwynt 10 metr i'r gorllewin o ganol Cyffordd North Row.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gorllewin o Gyffordd North Row hyd at bwynt 173 o fetrau i'r dwyrain o ganol ffordd fynediad ymyl Air Products.

## ATODLEN 4

### Clirffordd

Y darn hwnnw o'r ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 28 o fetrau i'r dwyrain o berimedr Cylchfan Longditch hyd at bwynt 10 metr i'r gorllewin o Gyffordd North Row, cyfanswm pellter o 5 cilometr.

## GORCHYMYN FFORDD FYNEDIAD GWAITH DUR YR A4810 (QUEEN'S WAY) (LLAN-WERN, CASNEWYDD) (TERFYNAU CYFLYMDER AMRYWIOL A CHLIRFFORDD) 201-

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a 84(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd:

i. gosod terfynau cyflymder amrywiol ar ddarnau penodedig o Ffordd Fynediad Gwaith Dur yr A4810 (Queen's Way) yn Llan-wern yng Nghasnewydd (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y ffordd fynediad") a bennir yn Atodlenni 1, 2 a 3 i'r Hysbysiad hwn, a

ii. creu clirffordd ar y darn hwnnw o'r ffordd fynediad a bennir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 21 Awst 2013, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â phlan cysylltiedig a Datganiad o Resymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol, yn y lleoliadau canlynol:

- Siop Un Stop Cil-y-coed, Woodstock Way, Cil-y-coed NP26 5DB;
- Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Radur, Brynbuga NP15 1GA; a
- Cyngor Dinas Casnewydd, y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR,

neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Llywodraeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 11 Medi 2013. Noder: Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i ni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni drosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth ddrafft', 'Offerynnau Statudol Lleol Drafft', 'Gorchmynion Traffig Parhaol').

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

*M D Burnell*

**M D BURNELL**
Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

## Darnau o Ffordd Fynediad y Gwaith Dur (Queen’s Way), Llan-wern, Casnewydd

### ATODLEN 1

### Terfyn Cyflymder 30 MYA

Y darn hwnnw o'r ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 28 o fetrau i'r dwyrain o berimedr Cylchfan Longditch hyd at bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau.

### ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 40 MYA

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau hyd at bwynt 41 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Newport Galvanisers a reolir gan signalau.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 173 o fetrau i'r dwyrain o ganol ffordd fynediad ymyl Air Products hyd at bwynt 206 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Glan Llyn a reolir gan signalau.

### ATODLEN 3

### Terfyn Cyflymder 50 MYA

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 41 o fetrau i'r dwyrain o ganol cyffordd Newport Galvanisers a reolir gan signalau hyd at bwynt 10 metr i'r gorllewin o ganol Cyffordd North Row.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gorllewin o Gyffordd North Row hyd at bwynt 173 o fetrau i'r dwyrain o ganol ffordd fynediad ymyl Air Products.

### ATODLEN 4

### Clirffordd

Y darn hwnnw o'r ffordd fynediad sy'n ymestyn o bwynt 28 o fetrau i'r dwyrain o berimedr Cylchfan

Longditch hyd at bwynt 10 metr i'r gorllewin o Gyffordd North Row, cyfanswm pellter o 5 cilometr.